**Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**
—
**Independent Remuneration Board of the Senedd**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Taliadau@senedd.cymru
bwrddtaliadau.cymru
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Remuneration@senedd.wales
remunerationboard.wales
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
seneddDCC@senedd.cymru

Dyddiad | Date: 23 01 2024

Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i lywodraethiant y DU a'r UE. Roedd eich llythyr yn gofyn am ymateb gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ('y Bwrdd') i argymhelliad 18 o'r adroddiad:

> *Dylai Comisiwn y Senedd a'r Bwrdd Taliadau barhau i roi cymorth priodol a digonol i Aelodau'r Senedd a Phwyllgorau'r Senedd i'w galluogi i ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau a rhanddeiliaid yr UE er mwyn sicrhau bod materion allweddol o bwys i Gymru yn cael eu codi'n uniongyrchol ym Mrwsel.*

Mae'r Bwrdd yn cydnabod rôl bwysig yr Aelodau o ran ymgysylltu â sefydliadau a rhanddeiliaid yr UE a chynnal cysylltiadau â nhw, a rôl y Bwrdd o ran cynorthwyo'r Aelodau i ymgymryd â'r gwaith hwn. Gan hynny, mae'r Bwrdd yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

Mae darpariaethau ar gyfer Aelodau o'r Senedd ('Aelodau') sy'n teithio ac yn aros dros nos y tu allan i'r Deyrnas Unedig wedi'u cynnwys yn adrannau 4.5, 5.15 a 5.12 o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ('y Penderfyniad'). Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu i Aelodau wneud cais am ad-daliad pan fyddant yn ymweld â Brwsel a sefydliadau'r UE, yn amodol ar y gofynion isod a'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn y Penderfyniad.

Caniateir i'r Aelodau hawlio ad-daliad ar gyfer costau teithio a chostau llety y tu allan i'r Deyrnas Unedig os bydd y daith:

- o fudd i’r unigolyn yn ei rôl fel Aelod o’r Senedd ac i’r Senedd yn ehangach;
- yn caniatáu iddynt gasglu syniadau newydd a fydd o fudd i’r Senedd;
- yn eu galluogi i hyrwyddo Cymru a gwaith y Senedd, a hybu enw da’r Senedd mewn cyd-destun rhyngwladol.

Gellir hawlio ad-daliad ar gyfer costau o’r fath am bum noson fan bellaf a rhaid cyflwyno achos busnes ar gyfer y daith i’r Tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau a chyhoeddi adroddiad ar yr ymweliad ar wefan y Senedd.

Mae adran 16 o’r Penderfyniad yn nodi mai mater i Gomisiwn y Senedd, nid y Penderfyniad, yw ad-dalu costau teithio i Aelodau sy’n ymgymryd â busnes pwyllgor.

Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (adran 3) yn ei gwneud yn ofynnol i’r Bwrdd ddal ati i adolygu’r Penderfyniad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu’r cymorth ariannol gofynnol i ganiatáu i Aelodau gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau. Mae'r Bwrdd ar hyn o bryd yn ymgynghori ynghylch nifer o newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad. Bwriedir i’r rhain ddod i rym yn 2024-25. Yn dilyn adborth gan yr Aelodau, mae’r cynigion yn cynnwys diwygio darpariaethau’r Penderfyniad yng nghyd-destun costau teithio a chostau llety rhyngwladol a chaniatáu i fwy nag un Aelod gyflwyno achos busnes ar y cyd ar gyfer taith ryngwladol, yn lle bod yn rhaid i bob Aelod gyflwyno achos busnes unigol. Mae’r cynigion hefyd yn cynnwys mewnosod geiriad ychwanegol yn y Penderfyniad i egluro mai mater i Gomisiwn y Senedd, nid y Penderfyniad, yw holl gostau teithio a llety y bydd Aelodau yn eu hysgwyddo pan fyddant ar fusnes pwyllgor; nid yw hwn yn newid sylweddol ond mae'n egluro'r trefniadau presennol. Felly nid yw'r Bwrdd yn cynnig unrhyw gyfyngiadau newydd neu wahanol ar allu Aelodau i geisio ad-daliad ar gyfer y gost o ymweld â Brwsel.

Mae’r ymgynghoriad ynghylch y newidiadau hyn a’r newidiadau arfaethedig eraill i’r Penderfyniad yn para tan 26 Ionawr 2024. Bydd y Bwrdd yn ystyried ymatebion i’r ymgynghoriad ac yn cyhoeddi’r Penderfyniad terfynol ar gyfer 2024-25 ym mis Mawrth 2024.

Cyn y Seithfed Senedd, bydd y Bwrdd yn cynnal adolygiad llawn o bob agwedd ar y Penderfyniad. Caiff y gwaith hwn ei rannu’n bum adolygiad thematig. Ar ran y Bwrdd, rwyf i’n arwain adolygiad o Daliadau a Chymorth Personol i’r Aelodau. Mae’r Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer yr adolygiad hwn, a rannwyd â’r Aelodau yn ddiweddar at ddibenion ymgynghoriad a fydd yn para tan 9 Chwefror 2024, yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gofynion teithio a llety’r Aelodau (gweler y Cylch Gorchwyl yn Atodiad A i’r llythyr diweddaru a rannwyd â’r Aelodau yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ar 29 a 30 Tachwedd). Rwy’n edrych ymlaen at ymgysylltu â’r Aelodau a’r grwpiau gwleidyddol yn 2024 fel rhan o’r gwaith hwn, i gael barn am unrhyw newidiadau y mae angen eu cyflwyno i’r darpariaethau presennol.

Byddai'r Bwrdd yn croesawu unrhyw dystiolaeth gan Aelodau am y newidiadau y mae angen eu cyflwyno i ddarpariaethau'r Penderfyniad yng nghyd-destun costau teithio a chostau llety, pan nad yw'r costau hynny'n ymwneud â busnes pwyllgor. Bydd unrhyw sylwadau a ddaw i law'n cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad presennol o'r Penderfyniad ar gyfer 2024-25 a'r adolygiad ehangach o Daliadau a Chymorth Personol i'r Aelodau, ar gyfer y Seithfed Senedd.

Cofion gorau,



**Dr Elizabeth Haywood,**
**Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.*